



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WG 010/2018	Dyddiad cyhoeddi:	26 / 10M / 2018
Statws:	Er gwybodaeth		
Teitl:	Asesu systemau cladin ar waliau allanol.		
Cyhoeddwyd gan:			
Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu			
Cyfeiriwyd at:		Anfonwch ymlaen at:	
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu		Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Arolygwyr Cymeradwy Aelodau Cynulliad	
Crynodeb:			
Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag asesu systemau cladin ar waliau allanol.			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
Colin Blick Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful		Llinell Uniongyrchol: 03000 628144 E-bost: <a href="mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru">enquiries.brconstruction@llyw.cymru</a> Gwefan: <a href="http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&amp;lang=cy">http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&amp;lang=cy</a>	

## **ASESU SYSTEMAU CLADIN AR WALIAU ALLANOL**

Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag asesu systemau cladin ar waliau allanol.

### **CWMPAS Y CYLCHLYTHYR**

Mae'r canllawiau yn y Cylchlythyr hwn yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru.

Mae'r canllawiau'n berthnasol yn bennaf i brosiectau y mae cais planiau llawn yn cael ei wneud ar eu cyfer neu i hysbysiad cychwynnol a gaiff ei gyflwyno o ddyddiad y llythyr hwn ymlaen. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau sydd eisoes ar waith, mae'n bosibl y bydd cyrff rheoli adeiladu am gadarnhau unwaith eto fod tystiolaeth foddhaol wedi'i chyflwyno i ddangos bod gofynion paragraff B4 o Atodlen 1 yn cael eu bodloni.

### **CYFLWYNIAD**

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddiwygiadau i'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy B er mwyn cyfyngu ar ddefnyddio asesiadau yn lle profion. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon a fynegwyd yn adroddiad y Fonesig Judith Hackitt ar Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân, ac a godwyd gan lawer o bobl eraill, fod asesiadau wedi bod yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd amhriodol i gefnogi cynigion i osod systemau cladin. Mae Gweinidogion Cymru yn rhannu'r pryderon hynny.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynigion i wahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy mewn systemau ar gyfer waliau allanol adeiladau preswyl uchel iawn. Byddai gwaharddiad yn dileu'r opsiwn i ddatblygwyr ddefnyddio asesiad (cyfeirir ato weithiau fel "astudiaeth pen bwrdd") yn lle prawf i ddangos bod systemau o'r fath yn cydymffurfio â'r gofynion o ran atal tanau rhag lledaenu'n allanol ar waliau allanol.

Tan i Weinidogion Cymru benderfynu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, mae'r llythyr hwn yn rhoi arweiniad i gyrff rheoli adeiladu ar sut y dylent fod yn asesu a yw adeiladwyr yn cydymffurfio â gofynion Paragraff B4 o Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 fel y'u diwygiwyd.

### **CANLLAWIAU**

Mae adran 13 o Gyfrol 2 o Ddogfen Gymeradwy B (*Fire safety – buildings other than dwelling houses*) yn nodi dwy ffordd i'r rheini sydd â dyletswydd i wneud hynny ddangos bod adeiladau sydd â llawr 18m neu fwy uwchlaw lefel y ddaear yn cydymffurfio â gofynion Paragraff B4 o Atodlen 1 (Atal Tanau rhag Lledaenu'n Allanol) i Reoliadau Adeiladu 2010 fel y'u diwygiwyd.

Dyma'r gofynion hynny:

- Rhaid i unrhyw gynnyrch inswleiddio, deunyddiau llenwi (heb gynnwys gasgedi, deunyddiau selio a deunyddiau tebyg) etc sy'n cael eu defnyddio wrth adeiladu waliau allanol fod yn rhai â hylosgedd cyfyngedig (fel y'i diffinnir yn Nhabl A7 o Atodiad A i Gyfrol 2 o Ddogfen Gymeradwy B); neu

- Rhaid i'r wal allanol fodloni'r meini prawf yn adroddiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladu(BRE) *Fire performance of external thermal insulation for walls of multi storey buildings* (BR 135) ar gyfer perfformiad systemau cladin, gan ddefnyddio data o brofion ar raddfa lawn o BS 8414 -1: 2002 neu BS 8414-2: 2005.

Tan i benderfyniadau gael eu gwneud ar ôl yr ymgynghori, a than i unrhyw safon newydd gael ei chyhoeddi, barn Gweinidogion Cymru yw mai'r unig dystiolaeth y dylai cyrff rheoli adeiladu ei derbyn er mwyn dangos bod systemau a deunyddiau'n cydymffurfio â'r gofynion yw un o'r ddwy ffordd uchod.

Dylai cyrff rheoli adeiladu edrych am dystiolaeth glir bod y categori o ddeunyddiau a ddefnyddir yn bodloni'r diffiniadau yn Nhabl A7 o Atodiad A; neu am dystiolaeth glir o ganlyniadau profion a gynhaliwyd yn unol â BS 8414. Rhaid i ganlyniadau'r profion fod yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer adeiladwaith y wal allanol arfaethedig. Ni ddylai cyrff rheoli datblygu dderbyn cynigion os nad oes dystiolaeth o'r fath ar eu cyfer.

## YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y materion a drafodir yn y Cylchlythyr hwn, cysylltwch â:

Rheoliadau Adeiladu  
Llywodraeth Cymru  
Llawr Cyntaf, Gogledd  
Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Ffôn: 03000 628144

E-bost: [enquiries.brconstruction@llyw.cymru](mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru)

Yn gywir



**François Samuel**  
**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**  
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**  
**Llywodraeth Cymru**